Gwyddoniaeth
5 i 9

# Creu Creadur

- Bioamrywiaeth a Rhyng-ddibyniaeth



## Trosolwg

Bydd y gweithgaredd gwyddoniaeth greadigol yma'n archwilio cynefinoedd ac addasiadau anifeiliaid drwy greu anifail newydd sy'n addas ar gyfer amgylchedd penodol.

## Adnoddau

- Toes chwarae neu glai naturiol cartref
- Deunyddiau naturiol
- Ardal amrywiol gyda thyllau cuddio bach a chorneli. Does dim rhaid iddi fod yn naturiol i gyd e.e. Sut byddai anifail yn edrych pe bai wedi gorfod addasu i fyw ar wal ysgol?!

## Gweithgaredd

1. Gweithiwch mewn grwpiau bach neu'n annibynnol.
2. Dewiswch gynefin addas ar dir eich ysgol.
3. Gwnewch 'greadur' fydd yn gallu defnyddio'r cynefin hwnnw.
4. Gofynnwch i'r disgyblion ystyried sut mae wedi addasu i'w gynefin. Hynny yw:
    - sut mae'n bwydo;
    - ble mae'n cysgodi;
    - sut mae'n amddiffyn ei hun;
    - enw rhywogaeth.

## Suggested outcomes for learning and play

Rydyn ni'n deall y byddwch chi, fel addysgwr, yn teilwra'r gweithgaredd yma i anghenion dysgu eich myfyrwyr. Dyma rai o'r canlyniadau dysgu y mae ymarferyddion eraill wedi defnyddio'r gweithgaredd yma ar gyfer eu cyrraedd.

- Deall bod anifeiliaid yn addasu i weddu i'w hamgylchedd
- Archwilio anghenion sylfaenol anifeiliaid fel bwyd a lloches

Isod, rydyn ni wedi defnyddio syniadau y mae addysgwyr eraill wedi'u defnyddio gyda'r gweithgaredd yma i bontio'r bwlch rhwng y tu mewn a'r awyr agored ar gyfer eu myfyrwyr.

| Maes Pwnc | Testun | Syniadau ar gyfer Archwilio Pellach |
|---|---|---|
| Llythrennedd ac Iaith | Siarad ar gyfer ysgrifennu | Creu cwestiynau i gyfweld y creadur a chael gwybod amdano |
| | Adroddiadau heb fod yn gronolegol | Ysgrifennu ffeil ffeithiau am eich creadur |
| | Ysgrifennu ffuglen | Llunio stori gyda'ch creadur newydd ynddi |
| Drama | Chwarae rôl | Gofyn i'r disgyblion ddychmygu mai nhw yw'r creadur a chymryd ei nodweddion |
| Mathemateg | Mesur | Cyfrif dimensiynau gwahanol 'gynefinoedd' a faint o greaduriaid allai ffitio ynddynt |
| Gwyddoniaeth | Bioamrywiaeth | Archwilio sut gallech chi wella tiroedd eich ysgol i ddarparu mwy o gynefinoedd i anifeiliaid |
| Celf | Defnyddio gwahanol ddulliau artistig | Gwneud eich creadur allan o glai wedi'i aer-sychu a'i baentio ar ôl ei sychu |
| | | Braslunio neu baentio'r anifail mewn gwahanol dechnegau |

Learning through Landscapes

Os hoffech chi ddatblygu eich gwybodaeth a'ch sgiliau dysgu awyr agored, edrychwch ar ein hamrywiaeth ni o gyrsiau hyfforddi: ltl.org.uk/outdoor-learning-training

© Mae'r daflen weithgarwch yma wedi cael ei chreu gan Ymddiriedolaeth Learning through Landscapes. Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr rhif 803270 ac yn yr Alban SCO38890